**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - ADDYSG A CHYNHWYSIANT**
Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant a gynhaliwyd Dydd Iau, 14 Medi 2023 am 5.00 pm ym Hybrid.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma
Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd S.Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd M Maohoub

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd K Webb
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd D Wood

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr P Booth, Cynrychiolydd Awdurdodau Esgobaethol â'r hawl i bleidlais
Mr M Cleverley, Cynrychiolydd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau a'r Panel Athrawon
Mrs R Lydon, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol
Mr M Thomas, Cynrychiolydd NEU
Mr M Veale, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Howell, Ysgolion yr 21ain Ganrif
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mrs T Watson, Uwch Swyddog Democrataidd a Craffu

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd J Smith
Mr L Patterson

**16 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Ashford, Emanuel a Smith; yr Aelod Cyfetholedig Mr L Patterson; Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant - Ceri Jones; yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg; y Cynghorydd Lewis a

Chyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, Christian Hanagan.

**17 DATGAN BUDDIANT**

Eitem 4 ar yr agenda - Ymgynghoriad ar gynnig i agor ysgol arbennig 3 i 19 oed newydd yn Rhondda Cynon Taf

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Preedy - Datganiad Personol - 'Mae un o'r ysgolion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, Ysgol Tŷ Coch, yn fy ward i'
- Mr R Lydon, Aelod Cyfetholedig - Datganiad Personol - 'Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Arbennig Park Lane'

Eitem 5 ar yr agenda - Ymgynghoriad ar y cynigion i ad-drefnu darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu prif ffrwd - anghenion dysgu ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Evans – Datganiad Personol - 'Mae ysgol fy mab wedi'i nodi yn yr adroddiad'
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Lisles - Datganiad Personol - 'Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, rydw i hefyd yn Aelod o'r Corff Llywodraethu yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen'
- Mr M Veale, Aelod Cyfetholedig - Datganiad Personol - 'Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac yn rhan o'r Corff Llywodraethu dros dro ar gyfer Ysgol Afon Wen'

**18 COFNODION**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir yn dilyn y newid canlynol:-

Dylai teitl swydd y Pennaeth Gwasanaeth nodi 'Pennaeth Gwasanaeth – Materion Trawsnewid, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu'.

**19 DOLENNI YMGYNGHORI**

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod yr ymgynghoriadau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru wedi'u rhannu ag Aelodau ar 1 Medi, a does dim ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru pellach i'w rhannu ag Aelodau ar hyn o bryd.

**20 CYNNIG I DDATBLYGU YSGOL ARBENNIG NEWYDD YN RHONDDA CYNON TAF**

Roedd yr Uwch Swyddog Democrataidd a Materion Craffu wedi atgoffa Aelodau mai pwrpas y dasg yma yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y Cyngor sy'n cynnig datblygu ysgol arbennig 3-19 oed newydd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT). Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Thrawsnewid wybodaeth bellach i Aelodau am y cynigion i ddatblygu ysgol arbennig newydd yn RhCT, gan gyflwyno adroddiad i Aelodau.

Holodd Aelodau am ymatebion rhieni i'r ymgynghoriad, sut roedden nhw wedi ymgysylltu â'r ymgynghoriad â'r broses o ran ymgynghori â rhieni'r plant hynny sydd ag anghenion presennol.

Roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Thrawsnewid wedi cydnabod bod cyfarfodydd unigol wedi'u cynnal gyda phob un o'r ysgolion arbennig, yn rhan o broses y Cod Trefniadaeth Ysgolion, roedd y cyfarfodydd yma'n cynnwys llywodraethwyr, disgyblion, y cyngor ysgol, a rhieni. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd noson agored yng Nghwm Clydach - ond ni ddaeth llawer o bobl i'r achlysur. Mae'r ddogfen ymgynghori wedi cael ei rhannu ag ysgolion RhCT fel bod cyfle gyda nhw i gyflwyno sylwadau.

Cadarnhaodd Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif fod pob rhiant sydd â phlentyn mewn ysgol arbennig wedi derbyn dolen i ddogfennau'r ymgynghoriad, hyd yn hyn mae 44 o ymatebion wedi'u cyflwyno, gyda llai na hanner yn cyflwyno sylwadau negyddol. Nodwyd nad yw'r ymgynghoriad wedi'i ystyried yn ymgynghoriad dadleuol, ac mae'r adborth ar y cyfan wedi bod yn gadarnhaol. Nifer fach o bobl sydd wedi dod i gyfarfodydd gyda staff a'r cyrff llywodraethu.

Gofynnodd Aelod am grynodeb o ymatebion Menter Iaith, Mudiad Meithrin a Chomisiynydd y Gymraeg.

Rhoddodd Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif wybod nad oedd unrhyw ymateb wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Dim ond un ymateb sydd wedi'i dderbyn gan ymgynghorai statudol hyd yn hyn, sef Estyn.

Holodd Aelod sawl disgybl sydd wedi symud o ysgol arbennig i Ddosbarth Cynnal Dysgu mewn ysgol brif ffrwd neu i'r gwrthwyneb.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu ei bod hi dim ond yn gwybod am un plentyn a symudodd o ysgol arbennig i un o’r ysgolion prif ffrwd. O ran symud o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu i ysgolion arbennig, byddai llawer o rieni yn rhoi cyfle i'r plentyn mewn amgylchedd diogel yr ysgol gynradd ond roedd y naid i'r ysgol uwchradd yn rhy fawr.

Gofynnodd yr Aelod am eglurhad pellach o ran y gwahaniaethau sydd i’w gweld yn y data.

Esboniodd y Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion - Ysgolion yr 21ain Ganrif fod y Cod yn nodi bod angen defnyddio o leiaf 5 mlynedd o ddata wrth edrych ar bresenoldeb, er iddi gydnabod bod yr adroddiad arall yn defnyddio data 10 mlynedd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y data sydd yn yr adroddiad ar ysgolion arbennig yn dangos twf sylweddol o ran galw.

Nododd yr Aelod y ddarpariaeth y tu allan i'r sir a'r gost sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth yma, a gofynnodd am sicrwydd y bydd y ddarpariaeth yma'n lliniaru rhai o'r costau yma, gyda'r ddarpariaeth wedi'i hehangu.

O ran darpariaeth y tu allan i'r sir, esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod y Cyngor yn dda iawn yn cadw plant yn y sir gan ddefnyddio'i ddarpariaeth ei hun. Mae rhai eithriadau, e.e. os oes angen lleoliad preswyl ar y plentyn/person ifanc, neu os yw Tribiwnlys wedi rhoi

cyfarwyddyd i’r Awdurdod Lleol i roi dysgwr mewn lleoliad y tu allan i'r sir. Mae costau'r ddarpariaeth y tu allan i'r sir wedi lleihau, ond mae'n anodd rhoi sicrwydd o ran lleoliadau yn y dyfodol gan ystyried cymhlethdod y galw a'r angen am leoliadau ysgol arbennig, ond dylai'r cynnig gynyddu capasiti yn sylweddol.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 49 gan holi pa opsiynau sydd wedi'u harchwilio o ran darpariaeth ôl-16.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod gwaith da iawn wedi'i wneud i ddatblygu darpariaeth ôl-16 arbenigol a champysau colegau, mae'r gwaith yma wedi bod yn effeithiol ond mae cyfyngiadau ar safleoedd rhai ysgolion o ran ehangu'r ddarpariaeth ôl-16.

Cyfeiriodd Aelod at y costau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'r ysgolion arbennig presennol, gan holi a fyddai'r costau cynnal a chadw yma'n cael eu lliniaru gan y cynnig yma.

Roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid wedi cydnabod y bydd y costau cynnal a chadw yma'n dal i fodoli, ond byddai modd defnyddio rhaglen gyfalaf y Cyngor i gefnogi'r ysgolion i leihau'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gronni, er bod hyn yn her. Mae cyllid cyfalaf presennol hefyd wedi'i fuddsoddi mewn ysgolion arbennig dros y 3 blynedd diwethaf i'w gwella.

Nododd Aelod arall ymrwymiad y Cyngor i ddod yn Gyngor Carbon Niwtral a gofynnodd am eglurhad pellach mewn perthynas ag effaith cludiant.

Roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid wedi cydnabod na fydd gostyngiad sylweddol o ran costau, felly mae hi'n bwysig cadw plant yn eu dalgylchoedd, gan na fyddai rhai pellteroedd teithio mor fawr ag ydyn nhw ar hyn o bryd. Cydnabuwyd na fyddai unrhyw arbedion, ond nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd costau cludiant yn cynyddu'n sylweddol.

Holodd Aelod a yw'r Cyngor wedi ystyried caffael cerbydau ecogyfeillgar e.e. cerbydau trydan.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid fod llawer o gwmnïau tacsis a cherbydau cludiant ysgol yn cael eu hannog gan y garfan cludiant ysgol i symud i gerbydau trydan, felly mae hyn yn galonogol.

Holodd Aelod a fyddai'r Cyngor yn ymweld â darpariaeth y tu allan i'r sir i weld enghreifftiau o hyn.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi nodi eu bod nhw eisoes wedi ymweld ag un ddarpariaeth, yn ogystal â chynnal cyfarfod gyda charfanau dylunio arbenigol gan gynnal gweithdai i drafod sut allai ysgol newydd edrych. Nodwyd bod y garfan ddylunio wedi gweithio ledled y DU felly bydd modd iddyn nhw fanteisio ar arferion gorau a bydd y Cyngor yn cynnal ymweliadau pellach lle bo angen.

Gofynnodd yr Aelod am eglurhad pellach o ran cymorth iaith a lleferydd mewn unedau nad ydyn nhw'n rhai arbenigol mewn ysgolion.

Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu wedi cydnabod bod rhai strategaethau a dulliau sy'n cael eu darparu gan garfanau allgymorth ar gael, yn ogystal ag athrawon allgymorth, gan weithio mewn partneriaeth â'r sector Iechyd. Yn ogystal â hyn, mae yna gynllun peilot yn ymwneud â sgiliau iaith sydd bellach yn ei ail flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgolion yr adnoddau sydd eu hangen i fodloni anghenion plant di-eiriau.

Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran y gweithlu, gan holi a yw hyn eisoes yn bodoli yn RhCT, gan gydnabod bod angen athrawon a staff cymorth medrus a chymwys.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y bydd unrhyw leoliad newydd yn denu staff newydd a dydy hi ddim yn rhagweld y bydd recriwtio staff i'r sector yn cyflwyno heriau sylweddol.  Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai modd i'r lleoliad newydd gael effaith gynyddol ar staff mewn lleoliadau presennol, ac mae angen lliniaru yn erbyn yr effaith yma. Y gobaith oedd y byddai'r cynnig yma'n denu staff o sectorau eraill tu hwnt i'r lleoliadau arbenigol hefyd.

Mynegodd Aelod bryderon o ran sgrinio'r effaith ar gydraddoldeb a gofynnodd yr Aelod fod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal.

Cyfeiriodd Aelod at y cyfrifiadau o ran capasiti, ac roedd yr Aelod o'r farn bod angen bod yn glir wrth drafod rhagfynegiadau ar gyfer nifer y lleoedd mewn ysgol arbennig yn y dyfodol, a gofynnodd a fydd y sefyllfa newydd yn bodloni'r galw.

Esboniodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid ei bod hi'n anodd gwneud hyn gan nad yw Llywodraeth Cymru nodi cyfrifiadau o ran capasiti ar gyfer ysgolion arbennig, ond mae canllawiau Bwletinau Adeiladu ar gael.

Roedd Aelod yn gefnogol iawn o doiledau niwtral o ran rhywedd gan nodi bod angen blaenoriaethu'r gwaith dylunio a diogelwch, a'r model a ffefrir yw bod popeth wedi'i gynnwys mewn un uned.

Roedd Aelod arall yn cytuno'n llwyr â'r Aelod gan gytuno y dylid anelu at gyflawni'r model yma.

Holodd Aelod a yw'r Cyngor wedi ystyried cymorth cyfrwng Cymraeg arbenigol e.e. staff sy'n siarad Cymraeg.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod pob ymdrech yn cael ei wneud i ddarparu profiadau iaith i'r plant hynny sy'n dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad mewn ysgolion arbennig sydd â staff sy'n siarad Cymraeg.  Mae penodi siaradwyr dwyieithog yn cynnig manteision mewn unrhyw leoliad, gan fod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau siarad Cymraeg ym mhob lleoliad. Byddai angen mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar anghenion. Felly os yw nifer sylweddol o blant yn dod i'r ddarpariaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg, byddai angen bod yn greadigol wrth ystyried y mater yma, i sicrhau bod yr anghenion yn cael eu bodloni. Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cydnabod y bydd y ddarpariaeth yma'n ddarpariaeth Saesneg, ond dydy hyn ddim yn golygu na fydd modd cynnig cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r ddarpariaeth yma. Mae angen bod yn hyblyg a sicrhau ein bod ni'n gwneud

popeth o fewn ein gallu i gefnogi plant i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu wybod bod archwiliad o sgiliau dwyieithog pob aelod o staff ym mhob lleoliad arbenigol a'r gwasanaethau arbenigol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, yn rhan o un o gamau gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Felly mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Holodd Aelod a yw'r Cyngor wedi ymrwymo i recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cydnabod bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnig i gynnal ymgynghoriad mewn perthynas â'r ysgol newydd. Mae modd dweud nad yw'r manylion o ran y cwricwlwm wedi cael eu cynnwys yn rhan o'r adroddiad yma, ond cytunodd gyda phopeth ddywedodd yr Aelod, gan ei bod hi'n bwysig datblygu hunaniaeth ddiwylliannol. Nodwyd bod hyn yn rhan bwysig o'r Cwricwlwm i Gymru a byddai'r mater yn cael ei gynnwys yn rhan o'r cwricwlwm yn y lleoliad newydd. Hefyd, caiff datblygu sgiliau Cymraeg mewn ysgol arbennig ei gefnogi ym mhob ysgol, gyda nifer o ysgolion arbennig yn gweithio gyda ChCD i ennill gwobrau. O ran sgiliau Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgrifiadau swydd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol, ond pe byddai sefyllfa yn codi lle mae galw sylweddol, byddai modd i'r Pennaeth nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol wrth recriwtio staff ar gyfer lleoliad penodol.

Roedd yr Aelodau o blaid y cynnig, a dymunodd Aelodau ddiolch a chanmol y Swyddogion am lunio'r cynnig yma. Yna, lluniodd yr Aelodau eu hymateb nhw i'r ddogfen ymgynghori.

Ar ôl trafod, PENDERFYNWYD:

1. Ymateb i'r cynnig sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1.
2. Darparu sylwadau/argymhellion pellach mewn perthynas â'r cynigion yma cyn i'r Cabinet eu trafod.
3. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn cyflwyno adborth y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant i'r Cabinet.

**21 YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I AD-DREFNU DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD - ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF**

Roedd yr Uwch Swyddog Democrataidd a Materion Craffu wedi atgoffa'r Aelodau mai pwrpas y dasg hon yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor gynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â deilliannau ymgynghoriad diweddar ar y cynigion i ad-drefnu darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu prif ffrwd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf (RhCT). Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu drosolwg o'r penderfyniad a gafodd ei wneud gan y Cyngor ym mis Mai 2023 (Atodiad A), sy'n rhoi caniatâd i gychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar y 5 cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn y Sir. Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu y 5 cynnig, cyn mynd ati i drafod cefndir yr adroddiad yn adran 4, a deilliannau'r ymgynghoriadau mewn perthynas â'r cynigion yn adran 5, gan nodi'r ymateb da. Cafodd gweddill yr adroddiad ei gyflwyno i'r Aelodau.

Cyfeiriodd Aelod at dabl 1 ar dudalen 138, gan ofyn am eglurhad pellach gan fod

y rhan fwyaf o ymatebion yn anghytuno â'r cynnig. Holodd yr Aelod a oedd hyn o ganlyniad i'r lleoliad newydd. Gofynnodd yr Aelod am gadarnhad y bydd y pryderon yma'n cael eu hateb. Ceisiodd yr Aelod sicrwydd y bydd cymorth digonol ar waith ar gyfer disgyblion a rhieni yn ystod y cyfnod pontio yma, gan gynnwys cludiant.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu mai dyma'r rheswm pam, esboniodd fod camau wedi'u cymryd gyda 3 disgybl sydd ar fin symud ar ddechrau'r tymor a byddan nhw'n parhau i fod yno hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud. Yn ogystal â hyn, drwy symud y dyddiad dechrau, dim ond 5 disgybl a staff fydd yn symud gyda nhw, gan gynnig nifer o gyfleoedd i gynnal ymweliadau. O ran cludiant, mae'n annhebygol y bydd hyn yn newid, gyda nifer o blant eisoes yn cyrraedd yr ysgol ar gludiant ysgol. Mae gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu weithdrefnau cyfathrebu â rhieni sydd wedi'u hen sefydlu.

Nododd Aelod ymateb y Cyngor Ysgol gan dynnu sylw at eu tristwch nhw mewn perthynas â'r cynnig i symud ysgol, gan nodi bod hyn yn dyst i lwyddiant yr ysgol, gan gynnwys y Dosbarth Cynnal Dysgu, ac mae angen dathlu hyn.

Ceisiodd Aelod sicrwydd na fydd symud lleoliad yn golygu newid o ran ansawdd y cyfleusterau a'r profiadau sy'n cael eu darparu, gan nodi'r ganmoliaeth ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon sydd wedi'i nodi yn yr ymatebion a derbyniwyd yn yr ymgynghoriad.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid wybod bod Perthcelyn ymhlith yr ysgolion mwyaf newydd a bod gan yr ysgol yr un cyfleusterau â'r ysgol yn Abercynon.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu fod pob Dosbarth Cynnal Dysgu'n dilyn yr un drefn, felly roedd yr un disgwyliadau o ran darparu'r cwricwlwm yn berthnasol i bob dosbarth, mae'r athrawon yn derbyn yr un cymorth a hyfforddiant. Er hynny, mae'r ffordd y mae hyn yn cael ei ddarparu yn wahanol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgolion unigol.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cydnabod bod newid yn cyflwyno heriau, ond mae angen y newidiadau yma er mwyn lleihau achosion o drosglwyddo drwy ddatblygu darpariaethau pob oed. Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu er mwyn lleihau unrhyw straen neu deimladau o bryder sydd gan y dysgwyr. Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cydnabod bod gan Abercynon a Pherthcelyn ysgolion hyfryd ac roedd hi'n hyderus na fydd safon y ddarpariaeth yn newid.

Gofynnodd yr Aelod am y broses ymgynghori sydd wedi'i hamlinellu yn yr adroddiad a gofynnodd am eglurhad pellach mewn perthynas â'r wybodaeth sydd wedi'i darparu yn yr adroddiad o ran hysbysu cyrff llywodraethu i roi cyfle iddyn nhw ymateb yn rhan o'r ymgynghoriad. Mynegodd yr Aelod bryderon gan nad yw'r sylwadau yma wedi'u nodi yn yr adroddiad. Nododd yr Aelod, sy'n aelod o gorff llywodraethu sydd wedi'i effeithio, nad ydyn nhw'n cofio derbyn dolen i'r ymgynghoriad. Nododd yr Aelod y sylwadau/materion a godwyd ar dudalen 145 mewn perthynas â chynnig 5, 'however responders felt further LSCs ar needed', gan nodi bod yr ymateb yn awgrymu y bydd adolygiadau pellach yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Roedden nhw o'r farn nad oedd hyn yn cynrychioli'r cwestiwn gwreiddiol a'r ymateb a derbyniwyd yn ystod yr

ymgynghoriad. Nododd Aelod y sylwadau gan Estyn ar dudalen 146, lle mae nifer o'r materion a drafodwyd wedi'u rhestru. Dywedodd yr Aelod nad oedden nhw o'r farn bod y materion yma wedi cael sylw priodol yn y ddogfen ymgynghori. Er bod y rhan fwyaf o'r sylwadau yn dweud 'dylai', roedd 3 yn dweud bod 'rhaid' gwneud y pethau yma.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybod bod pob ysgol/ymgynghorai a nodwyd wedi derbyn dolenni, hyd y gwyddai, ond byddai modd ymchwilio i'r mater pe byddai unrhyw un o'r farn nad oedden nhw wedi derbyn dolenni. O ran y materion a godwyd gan Estyn, gan edrych ar yr adborth a ddarparwyd, roedd rhai o'r materion a godwyd yn ddigon dilys ac mae'r rhain wedi'u derbyn. Er y profiad helaeth sydd gan y Cyngor wrth gynnal ymgynghoriadau statudol, cydnabuwyd y dylai rhagor o fanylion fod wedi'u cynnwys mewn rhai meysydd, er y gobaith yw bod yr ymatebion wedi helpu gyda hyn. O ran adborth mewn perthynas â'r ddarpariaeth cymorth dysgu ar lefel cynradd, mae gan yr ALI ddyletswydd statudol i adolygu pob darpariaeth ADY yn rheolaidd. Dyma fater sy'n cael ei drafod yn gyson ac os oes anghenion sydd ddim yn cael eu bodloni, bydd y rhain yn cael eu trafod hefyd.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu fod dolen i'r ymgynghoriad wedi cael ei hanfon at bob ysgol yn rhan o'r ymgynghoriad, a bod yr ysgolion wedi rhannu'r ddolen gyda'r cyrff llywodraethu a'r staff, felly os nad oedd hyn wedi digwydd yna byddai angen edrych ymhellach i'r mater. O ran y ddarpariaeth, nododd yr adolygiad presennol fod digon o ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd, o ran bodloni anghenion Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn yr ardal, ond mae angen ehangu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn cysylltu â'r drafodaeth flaenorol, gan fod modd bodloni anghenion plant mewn ysgolion cynradd prif ffrwd, ond mae symud i'r ysgol uwchradd yn gosod galw cynyddol ar y meysydd sy'n fwy heriol ar gyfer plant ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, felly roedd mwy o alw am leoedd.

Eglurodd yr Aelod fod eu cwestiwn nhw yn ymwneud â chynnig 5 ac roedd o'r farn bod hyn yn gadarnhaol. Roedd yr ymateb a gafodd ei dderbyn ar y pryd yn nodi nad oedd angen y ddarpariaeth ar y maes yma. Nododd yr Aelod nad yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn adlewyrchu hyn.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y byddai modd nodi'r sylwadau a'u hadlewyrchu yn yr wybodaeth sydd wedi'i rhannu.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 13.2 o'r adroddiad, sy'n amlinellu bwriad y Cyngor i weithio tuag at sicrhau darpariaeth ADY weithredol. Roedd yr Aelod yn falch o weld bod 2 ddosbarth wedi'i chynnig ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sy'n gadarnhaol iawn, ond roedd yr Aelod o'r farn nad ydyn nhw'n gwbl ddwyieithog fel sydd wedi'i nodi yn yr ymateb gan y Gwasanaethau Cymraeg. Roedd yr Aelod o'r farn bod y cynnig yn cyflawni rhywfaint ond dydyn nhw ddim yn bodloni gofynion sydd wedi'u gosod ar y Cyngor na Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Gofynnodd yr Aelod am sicrwydd y bydd cludiant yn cael ei ddarparu os yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei ffafrio, waeth beth fo'r lleoliad. Nododd yr Aelod yr effaith y byddai teithio pellter hir i fynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ei chael ar yr ôl-troed carbon, gan nodi y dylai'r Cyngor flaenoriaethu sicrhau sefyllfa ddelfrydol o sefydlu darpariaeth ledled y fwrdeistref yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y bydd cludiant yn cael ei ddarparu. Cydnabuwyd y bydd 2 darpariaeth newydd os caiff

y cynnig ei gymeradwyo, a bydd yn ddyletswydd statudol unwaith eto i adolygu'r ddarpariaeth. Felly, pe byddai'r dosbarthiadau'n cael eu llenwi, byddai angen trafod y mater yma ac ymateb iddo.

Holodd Aelod a yw nifer y disgyblion a oedd yn mynychu darpariaeth Gymraeg ac yna wedi symud i ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg i ddosbarth cyfrwng Saesneg wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yma.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu ei bod hi'n siŵr ei bod hi wedi gweld y niferoedd mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, felly bydd hi'n ymchwilio i'r mater yma.

Roedd Aelodau wedi cydnabod bod llawer o waith wedi'i wneud ac roedden nhw'n gefnogol o'r cynnig. Roedd yr Aelodau yn effro i'r heriau fyddai'n codi ar gyfer unigolion o ganlyniad i'r newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig ac roedden nhw o'r farn y dylai'r mater yma gael ei ystyried wrth lunio cynlluniau gweithredu, os yw'r cynnig yn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet. Yn gyffredinol, nododd y Pwyllgor ei gefnogaeth o blaid y cynigion yma.

Ar ôl trafod, PENDERFYNWYD:

1. Cynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â'r adroddiad (wedi'i atodi yn Atodiad A ac 1), gan roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu gyflwyno sylwadau am y mater yma cyn iddo gael ei drafod gan y Cabinet.
2. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn cyflwyno'r sylwadau a/neu argymhellion yr Aelodau i Bwyllgor y Cabinet.

**22 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

Roedd y Cadeirydd wedi cydnabod bod yr Aelodau wedi cyfrannu'n wych yn ystod y cyfarfod gan ddiolch iddyn nhw am holi cwestiynau. Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddogion am ateb y cwestiynau a'r gwaith paratoi, gan ddymuno pob dymuniad da iddyn nhw gyda'u hadroddiadau i'r Cabinet.

**23 MATERION BRYS**

None.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.56 pm**

**Y Cynghorydd S.Evans**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag